OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 2

## Sgrinio

**Achosion o ofyn am gyfarwyddydau sgrinio oddi wrth Weinidogion Cymru**

**7.**—(1) Rhaid i berson sy'n gofyn i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sgrinio yn unol â rheoliad 6(8) ("person sy'n gwneud cais") gyflwyno'r canlynol gyda'r cais—

(a) copi o'r cais i'r awdurdod cynllunio perthnasol o dan reoliad 6(1) a'r dogfennau a ddaeth ynghyd â'r cais;

(b) copi o unrhyw hysbysiad a gafwyd o dan reoliad 6(5) ac unrhyw ymateb a anfonwyd;

(c) copi o unrhyw farn sgrinio a gafwyd gan yr awdurdod ac unrhyw ddatganiad o'r rhesymau a ddaeth ynghyd â'r farn; a

(d) unrhyw sylwadau y dymuna'r person eu gwneud.

(2) Rhaid i berson sy'n gwneud cais anfon copi o'r cais hwnnw a'r sylwadau a wneir gan y person hwnnw i Weinidogion Cymru i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes digon o wybodaeth wedi ei darparu i wneud cyfarwyddyd sgrinio, rhaid iddynt roi hysbysiad i'r person sy'n gwneud y cais.

(4) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r pwyntiau y mae angen gwybodaeth ychwanegol amdanynt.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i'r awdurdod cynllunio perthnasol ddarparu cymaint o wybodaeth ag y gall am unrhyw rai o'r pwyntiau hynny.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sgrinio o fewn—

(a) 21 o ddiwrnodau; neu

(b) y fath gyfnod hwy nad yw'n fwy na 90 o ddiwrnodau a all fod yn rhesymol ofynnol,

yn y naill achos neu'r llall, o'r dyddiad y mae'r person sy'n gofyn am y farn yn cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (1).

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried, oherwydd amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig, nad yw'n ymarferol iddynt fabwysiadu cyfarwyddyd sgrinio o fewn y cyfnod o 90 o ddiwrnodau, caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person a ofynodd am gyfarwyddyd sgrinio.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan mewn unrhyw hysbysiad o dan baragraff (7) y rhesymau sy'n cyfiawnhau'r estyniad a dyddiad disgwyliedig y penderfyniad.

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o unrhyw gyfarwyddyd sgrinio a wneir yn unol â pharagraff (6) at y person a ofynnodd amdano, yr apelydd (os nad hwy yw'r person a ofynnodd amdano) a'r awdurdod cynllunio perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 7 mewn grym ar 16.5.2017, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, Adran 7.